CYMDEITHAS TAI CLWYD

DYRANNU A GOSOD EIDDO

Un o'n prif flaenoriaethau yw gwella'r cyfnod amser mae'n gymryd i ail-osod ein heiddo, ac er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, byddwn yn:

- Sicrhau bod eich ffurflen gais am eiddo yn cael ei phrosesu ymhen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn ffurflen wedi'i llenwi'n gyflawn. Yna fe wnawn ni eich hysbysu chi am ganlyniad eich cais yn ysgrifenedig.
- Unwaith y mae'r Swyddog Lletya wedi ymweld â'r holl ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer eiddo, gwneir penderfyniad ynghylch pwy yw'r ymgeisydd llwyddiannus cyn pen tridiau.
- Cynnig yr eiddo drwy gyfrwng galwad ffôn ar y diwrnod y gwneir y penderfyniad, gyda llythyr swyddogol yn cynnig y denantiaeth i chi yn cael ei anfon ymhen un diwrnod gwaith. Yn ogystal â'r llythyr cewch gytundeb tenantiaeth darpariaethol i chi ei ddarllen, ffurflen budd-dal tai i chi ei llenwi'n rhannol cyn y diwrnod dyrannu (os yw'n berthnasol) a ffurflen derbyn y cynnig.
- Caniatáu pum diwrnod gwaith i chi benderfynu a ydych chi'n dymuno derbyn yr eiddo.
- Hysbysu'r holl ymgeiswyr aflwyddiannus cyn pen 10 diwrnod gwaith wedi gwneud y penderfyniad.
- Sicrhau bod ein holl eiddo gwag yn unol â'r safonau ail-osod cyhoeddedig.
- Eich hysbysu chi yn wythnosol, pan ydych chi wedi derbyn cynnig yn ddarpariaethol, ynghylch y sefyllfa gyda'r eiddo os oes gwaith trwsio neu adnewyddu yn cael ei wneud.
- Darparu pecyn croeso yn rhoi manylion am yr holl wasanaethau y byddwch yn eu derbyn gan Gymdeithas Tai Clwyd (yn ogystal â chyngor a chymorth i wneud cais am fudd-dal tai, lle bo'n berthnasol).
- Rhoi llawlyfr tenantiaid cynhwysfawr i bob un o'n tenantiaid newydd.

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, cysylltwch â ni.

54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3BW

☎0345 230 3140
🖷 0345 230 3145
www.taiclwyd.com
taiclwyd@taiclwyd.com

Uned 8, Gweithdai Penllyn
Heol Aran
Y Bala, Gwynedd
LL23 7SP